



Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Cynllun Corfforaethol **2019 – 2022**



Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn berchen ar ac yn rheoli cyfanswm o **6,320** o gartrefi yng Ngogledd Cymru, yn darparu gwasanaethau i bron i **14,000** o bobl, ac yn cyflogi dros **300** aelod o staff.

Mae'r cynllun hwn yn nodi beth yr ydym yn dymuno ei gyflawni erbyn **2022**. Mae'n adlewyrchu ein gweledigaeth a'n gwerthoedd, ein hegwyddorion sylfaenol, a'r nodau allweddol yr ydym yn dymuno eu cyflawni.

Crynodeb Weithredol

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi datblygu i fod yn un o brif landlordiaid cymdeithasol Cymru ers ei **sefydlu yn 2010**. Rydym wedi llwyddo oherwydd ein buddsoddiad parhaol yn ein stoc dai, ynghyd â'n hymrwymiad parhaus i ddarparu cartrefi rhenti fforddiadwy i'r rheini ag angen tai. Mae'r cyflawniadau hyd yn hyn yn rhoi llawer o gyfleoedd i ni ar gyfer y dyfodol; mae'r rhain yn cynrychioli taith gyffrous o ran twf a gwella gwasanaeth a fydd yn arwain at welliannau cadarnhaol i'n tenantiaid presennol a thenantiaid y dyfodol, nid yn unig yng Ngwynedd ond hefyd ar hyd a lled weddill Cymru.

Heddiw rydym yn gweld newidiadau hollol newydd, o fewn y gymdeithas a hefyd ym mywydau unigolion. Mae'r helyntion gwleidyddol a diwygio lles yn cyflwyno heriau difrifol, ac ar lefel lleol, mae ansefydlogrwydd yn yr economi yn parhau ac argyfwng tai sy'n dwysau gyda nifer cynyddol o bobl ag angen tai. Fel y gallwn ymateb i'r newidiadau arwyddocaol hyn, rhaid i ni barhau i gynnal y buddsoddiad yng nghartrefi ein tenantiaid a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, ond mae angen i ni hefyd esblygu ac addasu. I ddiogelu rhag llai o gyllideb, er enghraifft, rhaid i ni arallgyfeirio ein model busnes i gynnwys ffynonellau eraill o incwm. Yn unol â hynny, i'n galluogi i leihau costau ac ymateb yn effeithiol i anghenion ein tenantiaid, rydym yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio.

Rydym yn gwella ein gwasanaethau ac yn cynyddu ein heffeithiolrwydd, ac rydym yn bwrw ymlaen gyda'n rhaglen i adeiladu tai newydd.

Gan edrych ymlaen at 2022, mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r math o sefydliad yr hoffem fod a beth yr ydym yn anelu at ei gyflawni; dulliau yr ydym yn bwriadu cyflenwi ein hamcanion, a sut y byddwn yn mesur llwyddiant. Wrth gwrs, byddai ein cyflawniadau hyd yn hyn wedi bod yn amhosib heb waith caled ein staff ymroddedig a chyfraniad sylweddol ein tenantiaid a'u cymunedau. Bydd hyn yn parhau wrth i ni symud ymlaen.



Ein gweledigaeth

“Fel prif ddarparwr tai a gwasanaethau o safon, rydym yn dymuno gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a’u cymunedau”

Yn benodol, erbyn **2022** ein gweledigaeth yw darparu gwasanaeth dosbarth cyntaf i’n cwsmeriaid, fel safon ofynnol; wedi darparu **550 o dai fforddiadwy newydd** i’r rheini ag angen tai; wedi sefydlu presenoldeb dibynadwy ar hyd a lled Cymru; cynhyrchu **gwarged o 10%** drwy weithgaredd masnachol newydd; staff a darpar staff yn ystyried ei fod yn le rhagorol i weithio ynddo, ac fel partner o ddewis gan sefydliadau eraill sydd ag enw da.



Ein gwerthoedd

Bydd ein nodau ar gyfer **2022** yn unol â'n gwerthoedd craidd:

Teg

Rydym yn ymddwyn yn **ddiduedd** yn **parchu** urddas ac unigolyddiaeth pawb

Agored

Rydym yn **ddibynadwy** ac yn **agored** yn y modd yr ydym yn gweithio a gwneud penderfyniadau

Uchelgeisiol

Rydym yn sefydliad **deinamig** ac **uchelgeisiol** sy'n cefnogi arloesedd a chreadigrwydd, ac yn chwilio am gyfleoedd i wella bob agwedd o'n busnes

Atebol

Rydym yn cymryd **cyfrifoldeb** am ein **penderfyniadau** ac i ganfod datrysiadau.



Ein hegwyddorion sylfaenol

Mae pedwar egwyddor allweddol yn sail i'n gwaith. Gweithio mewn Partneriaeth; Sicrhau Gwerth am Arian; Hybu'r iaith Gymraeg a rhoi grym i bobl yn y gweithle.

Gweithio mewn partneriaeth

I gyflawni ein gweledigaeth, mae angen i ni ddenu sefydliadau ag enw da i weithio â ni. Yn unol â hynny, byddwn yn ceisio ffurfio partneriaethau a fydd yn ein galluogi i ehangu ein cyrhaeddiad i farchnadoedd newydd. Yn ychwanegol, bydd rhannu'r cyfrifoldeb am gostau a risgiau yn cyfyngu effaith ariannol prosiectau adeiladu o'r newydd, yn golygu ein bod mewn sefyllfa gref wrth i ni barhau i dyfu.

Bydd cyfranogiad parhaus ein tenantiaid yn ffactor allweddol wrth siapio ein gwasanaethau presennol a gwasanaethau'r dyfodol. Wrth weithio mewn partneriaeth byddwn yn sicrhau bod ein tenantiaid yn cael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar ein gwasanaethau.

Sicrhau gwerth am arian

I sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion cwsmeriaid mewn modd cost effeithiol, byddwn yn adolygu'n barhaus y modd yr ydym yn gwneud pethau, yn pwysu a mesur cost yn ofalus, ansawdd a disgwyliadau'r cwsmer. Byddwn yn caffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd deg a moesol gan barhau i gefnogi diwylliant sy'n ceisio gwella'r economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd drwy'r busnes yn ei gyfanrwydd, gydag adolygiadau rheolaidd i sicrhau ein bod yn ymgymryd â'r gwelliannau perthnasol.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein gweithgareddau yn darparu'r gwerth cymdeithasol a effaith mwyaf cadarnhaol i'n tenantiaid a chymunedau.

Hybu'r iaith Gymraeg

Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i ni; mae'n hanfodol i fywyd a diwylliant llawer iawn o'r cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt ac yn elfen hollbwysig o'n gwaith. O ran hynny, byddwn bob amser yn hybu ac yn annog cwsmeriaid, staff a phartneriaid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Grymuso diwylliant y gweithle

Mae ein strategaeth ar gyfer y gweithle, 'Gwna Wahaniaeth', wedi cynorthwyo i feithrin egwyddorion grymuso, dyheadau a chyflawni o fewn diwylliant y gweithle. I gyflawni ein huchelgais a gweithredu newid parhaol, mae angen i ni annog yn barhaus, diwylliant o wobrwyo perfformiad o safon uchel. Yn unol â hynny, rhaid i ni barhau i gefnogi'r newidiadau cadarnhaol i'n caniatáu i feithrin amgylchedd dysgu ble mae syniadau, gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau yn cael eu rhannu, ac i wneud y mwyaf o'n heffeithiolrwydd fel y gallwn ganolbwyntio ar gyflawni rhagoriaeth.

Themâu allweddol y cynllun

Mae pedwar o themâu i'n cynllun. Mae gan bob glwstwr o amcanion uchelgeisiol a thargedau rydym angen cyflawni dros y tair blynedd nesaf, fel ein bod yn cynnig y gwasanaethau gorau posib i'n cwsmeriaid.

Y themâu yw:

- **cartrefi a gwasanaethau**
- **twf**
- **ein cymunedau**
- **ein busnes**

Cartrefi a Gwasanaethau

Rydym yn dymuno parhau i fuddsoddi yn ein heiddo a'n gwasanaethau. Rydym yn canolbwyntio ar ein cwsmeriaid a byddwn yn parhau i wrando arnynt a gweithredu mewn modd cadarnhaol er eu budd. Rydym yn parhau i ymrwymo i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid a pharhau i weithio i wella eu mynediad at wasanaethau a chartrefi cost-effeithiol o safon uchel. Rydym yn gwybod y gall cyflwr cartref unigolyn effeithio ar eu lles, felly rydym wedi ymrwymo i wella agweddau fel effeithiolrwydd ynni, er enghraifft, fel nad oes costau rhy uchel o ran cynhesu eu cartrefi.

Byddwn yn gwella ein cartrefi a gwasanaethau drwy gyflawni'r nodau canlynol:

- **Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein heiddo** fel y bydd holl denantiaid presennol a darpar denantiaid yn cael cartrefi o ansawdd. Erbyn 2022 rydym yn anelu at **gynnal 100% o'n cartrefi** i gydfynd â gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru.
- **Rydym yn dymuno gwella effeithiolrwydd ynni ein heiddo** er mwyn lleihau'r gost o fyw ynddynt. Erbyn 2022 ein hamcan yw **lleihau costau rhedeg eiddo ac allyriadau CO₂ o 10%** yn ein eiddo sydd fwyaf ynni effeithiol drwy fuddsoddi mewn mesurau ynni aneffeithiol gan gynnwys technoleg newydd
- **Rydym yn dymuno sicrhau bod ein darpariaeth gwasanaeth gystal** os nad gwell na chymdeithasu tai cymharol eraill. Erbyn 2022 bydd gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at gwsmeriaid yn gweithredu yn y chwarterel uchaf, **gyda 90% o denantiaid yn fodlon â'r gwasanaethau.**
- **Bydd ein tenantiaid yn parhau i fod yng nghalon yr hyn yr ydym yn ei wneud.** Erbyn 2022 rydym yn rhagweld y bydd **85% o'n tenantiaid yn fodlon** ein bod yn gwrando, ac yn gweithredu ar sylwadau neu bryderon.

Erbyn 2022 byddwn wedi cyflawni:

dros 90%
o'n cwsmeriaid
yn fodlon gyda'n
gwasanaethau

10% o leihad
mewn costau rhedeg ac
allyriadau CO₂ yn ein
eiddo sydd fwyaf ynni
effeithiol

dros 85%
o denantiaid yn fodlon
ein bod yn gwrando
ac yn gweithredu ar
sylwadau a phryderon

cynnal 100%
o'n cartrefi i gydfynd
â gofynion Safon
Ansawdd Tai Cymru

Rydym yn dymuno cael ein cydnabod fel prif ddarparwr dibynadwy o gartrefi newydd fforddiadwy o safon gyda phresenoldeb amlwg ar hyd a lled Cymru. I ennill cydnabyddiaeth, mae angen i ni arallgyfeirio ein meysydd incwm, manteisio ar gyfleoedd masnachol ac ail-fuddsoddi yn ein prosiectau adeiladu.

Byddwn yn parhau i dyfu drwy gyflawni'r nodau canlynol:

- **Rydym yn anelu at ehangu ein gweithrediad** i gynnig cartrefi o ansawdd a gwasanaethau i farchnadoedd newydd. Ein gweledigaeth yw, erbyn 2022 byddwn wedi **cael stoc dai oddi allan i Wynedd**, ac yn darparu gwasanaethau i gymdeithasu eraill ar draws Cymru.
- **Rydym yn dymuno archwilio dulliau newydd o adeiladu** ac yn anelu at adeiladu nifer o gartrefi arloesol. Ein gweledigaeth yw, erbyn 2022, byddwn wedi adeiladu **50 o gartrefi arloesol** yng Nghymru wedi eu hadeiladu i safon **dim carbon** fel bo'n ymarferol.
- **Rydym yn anelu at ddod yn ddatblygwr eiddo o faint**, yn cynyddu'r nifer o gartrefi fforddiadwy sydd ar gael. Erbyn 2022, byddwn wedi cyflenwi **500 o gartrefi newydd** o bob math (rhent cymdeithasol, canolradd, rhent y farchnad, gwerthiannau'r farchnad agored a pherchnogaeth tŷ ar gost isel).
- **Rydym yn anelu at arallgyfeirio ein ffynonellau o incwm** a chymryd mwy o ran mewn gweithgaredd masnachol, ac erbyn 2022 bydd, **10% o'n gwarged** am y flwyddyn yn dod o fentrau masnachol newydd.

Erbyn 2022 byddem wedi:

adeiladu **550 o dai newydd** fforddiadwy

cynhyrchu **10% o'n gwarged** o fentrau masnachol newydd

adeiladu **50 o gartrefi arloesol** yng Nghymru wedi eu hadeiladu i safon **dim carbon** fel bo'n ymarferon

Ein Cymunedau

Ein huchelgais yw creu cymunedau iach, diogel, yn ffyniannus a chydlynol: cymunedau y gall ein cwsmeriaid ymfalchïo ynddynt. Gan weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn darparu cefnogaeth i gymunedau sy'n wynebu tlodi, ac ar gyfer unigolion, a fydd yn canolbwyntio ar wella cyflogadwyedd drwy hyfforddi a datblygu sgiliau, cyfleoedd i wirfoddoli, lleoliadau gwaith a gwaith cyflogedig.

Byddwn yn cael effaith cymdeithasol drwy gyflawni'r nodau canlynol:

- Byddwn yn sianelu adnoddau a **buddsoddiad i wella iechyd, lles a chyfleoedd cymdeithasol ac economaidd cymunedau**. I sicrhau ein bod wedi cyrraedd y nod hwn, byddwn yn cynnal asesiad effaith y mae ein gweithgareddau yn ei gael yn y meysydd hyn rhwng 2019 a 2022.
- Rydym yn dymuno creu amgylchedd mwy diogel a gwell ble gall ein cymunedau ffynnu. Erbyn 2022 rydym yn rhagweld y bydd **mwy na 90% o'n cwsmeriaid yn fodlon â'u cymuned**; y byddwn yn gweld cynnydd o 5% ym malchder cwsmeriaid o'u cartrefi ac amgylchedd; ac y bydd gostyngiad yn y bygythiad tybiedig o drosedd yn ein cymunedau.
- Rydym yn dymuno cefnogi ein tenantiaid i wella eu cyflogadwyedd, ac felly eu cyfleoedd cyffredinol. Ein gweledigaeth yw, erbyn 2022 byddwn yn **cynorthwyo 60 o'n cwsmeriaid fesul blwyddyn i symud tuag at gyflogaeth** a chreu isafswm blynyddol o 30 o gyfleoedd gwirfoddoli gyda ni, a'n sefydliadau partner.
- Rydym yn anelu at ddarparu swyddi i ôlraddedigion, israddedigion a phrentisiaethau, ac yn rhagweld erbyn 2022 y byddwn yn **creu dau brentisiaeth** bob blwyddyn (fesul £3m o wariant buddsoddi), a **phedwar cyfle i raddedigion**.

Erbyn 2022 byddem wedi cyflawni:

fod mwy na **90%**
o'n cwsmeriaid yn
fodlon â'u cymuned;

cynorthwyo **60**
o'n cwsmeriaid fesul
blwyddyn i symud
tuag at gyflogaeth

creu **6** cyfle
prentisiaeth a
graddedigion bob
blwyddyn

Ein Busnes

Rydym yn sylweddoli gwerth ein staff, ac rydym yn dymuno parhau i annog diwylliant gweithle cryf a grymus, lle caiff bob aelod o staff eu gwobrwyo am eu cyfraniad.

Byddwn yn parhau i weithio at ddarparu cefnogaeth ariannol i wasanaethau presennol a thwf yn y dyfodol, a byddwn yn ymateb yn gadarnhaol i newid a heriau newydd. Rydym yn dymuno bod yn bartner o ddewis i sefydliadau eraill sydd ag enw da, a byddwn yn parhau i geisio partneriaethau gweithio sydd o fudd i ni. Rydym yn dymuno cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi leol, ac felly, byddwn bob amser yn mynd at gadwyn cyflenwi leol a chontractwyr yn y lle cyntaf.

Byddwn yn gwella ein busnes drwy gyflawni'r nodau canlynol:

- Rydym yn dymuno sicrhau bod gan ein busnes sylfaen ariannol gadarn ac y gallwn barhau i gynnig gwasanaethau cost-ffeithiol. Erbyn 2022 rydym yn rhagweld y byddwn wedi ail-gyllido'r busnes ac wedi diogelu cyfleusterau benthyca newydd, a byddwn wedi **cyflawni'n gyson marjin weithredol o fwy na 30%**.
- I gynyddu effeithiolrwydd, gwella mynediad cwsmer a diwallu gofynion yn y dyfodol, rydym yn dymuno buddsoddi yn ein systemau busnes craidd TGCh. Erbyn 2022 rydym yn rhagweld y byddwn wedi gweithredu system newydd ac y bydd **90% o ddefnyddwyr mewnol ac allanol yn fodlon**.
- Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol ac yn rhagweld erbyn 2022 ar gyfer pob **£1 sydd wedi'i wario**, byddwn yn gyson wedi cyflawni **lluosydd lleol Cymreig o fwy na £1.90**.
- Rydym yn dymuno denu a chadw'r dalent gorau a mwyaf disglair i weithio i ni. Ein gweledigaeth yw, erbyn 2022, bydd **90% o staff ar draws y cwmni yn fodlon**.
- Rydym eisiau lleihau effaith ein ôl-troed carbon rhagwelwn sicrhau lleihad o **10% blwyddyn ar ôl blwyddyn o gymharu a 2018**.

Erbyn 2022 byddem wedi:

cyflawni'n gyson marjin weithredol o fwy na **30%**

creu lluosydd lleol o fwy na **£1.90** am bob dim bob £1 a wariwn

sicrhau fod **dros 90%** o ddefnyddwyr ein systemau busnes craidd yn fodlon

cyflawni ar gael **dros 90%** o staff ar draws y cwmni yn fodlon.

sicrhau lleihad o **10%** blwyddyn ar ôl blwyddyn ar ein ôl troed carbon